# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 4

GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

*Prif weithredwyr*

### 54 Prif weithredwyr

(1) Rhaid i brif gyngor benodi prif weithredwr.

(2) Rhaid i brif weithredwr prif gyngor—

(a) adolygu'n barhaus bob un o'r materion a bennir yn is-adran (3), a

(b) pan fo'r prif weithredwr yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gwneud adroddiad i'r cyngor yn nodi cynigion y prif weithredwr mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'r materion hynny.

(3) Y materion yw—

(a) y modd y cydgysylltir sut y mae'r cyngor yn arfer ei wahanol swyddogaethau;

(b) trefniadau'r cyngor mewn perthynas ag—

(i) cynllunio ariannol,

(ii) rheoli asedau, a

(iii) rheoli risg;

(c) nifer a graddau'r staff sy'n ofynnol gan y cyngor er mwyn arfer ei swyddogaethau;

(d) trefniadaeth staff y cyngor;

(e) penodi staff y cyngor;

(f) y trefniadau ar gyfer rheoli staff y cyngor (gan gynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddi a datblygu).

(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl llunio adroddiad at ddibenion is-adran (2)(b), rhaid i brif weithredwr prif gyngor drefnu bod yr adroddiad yn cael ei anfon at holl aelodau'r cyngor.

(5) Rhaid i brif gyngor ystyried adroddiad a wnaed o dan is-adran (2)(b) mewn cyfarfod a gynhelir yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl i gopïau o'r adroddiad gael eu hanfon at aelodau'r cyngor am y tro cyntaf; ac nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i'r ddyletswydd a osodir gan yr is-adran hon.

(6) Rhaid i brif gyngor ddarparu i'w brif weithredwr y staff, yr adeiladau neu'r ystafelloedd a'r adnoddau eraill hynny sydd, ym marn y prif weithredwr, yn ddigonol i alluogi cyflawni dyletswyddau'r prif weithredwr o dan yr adran hon.

(7) Mae Atodlen 5 yn gwneud diwygiadau canlyniadol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 54 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I2** A. 54 mewn grym ar 5.5.2022 gan O.S. 2021/231, **ergl. 6(h)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 54.